# GARDD FOTENEG GENEDLAETHOL CYMRU

# CYLCHLYTHYR *Gwanwyn*

Rydyn ni'n cynnig dros 40 o wahanol raglenni ysgol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Dyma flas yn unig ar yr hyn yr ydym yn ei gynnig. Rhowch glic ar ein gwefan am fanylion rhaglenni eraill a gwybodaeth am sut i archebu eich lle ar daith yma.

## Newydd! Gweithdai Masnach Deg.

Beth ydyw a pham y dylwn fod yn rhan ohono? Gan ddefnyddio casgliadau o blanhigion yr Ardd, mae'r gweithdy heriol hwn yn cysylltu'r cynhyrchydd a'r defnyddwyr ac yn ymdrin â materion megis anghydraddoldeb, marchnadoedd byd-eang a phwer defnyddwyr. Mae'r gweithdai hyn yn mynd ati o ddifri i archwilio'r cysyniad 'Meddwl yn Fyd-eang, Gweithredu'n Lleol'. Mae'r gweithdai newydd yn ategu a chefnogi Menter Masnach Deg Ysgolion, Eco 'Sgolion ac Ysgolion Iach.

## Celf Amgylcheddol

Gall disgyblion ddod i greu darnau byrbarhaol o gelf amgylcheddol sy'n eu helpu i feddwl am y byd naturiol a'u lle ynddo. Wedi ei ysbrydoli gan waith artistiaid fel Tim Pugh ac Andy Goldsworthy, bydd gan ddisgyblion gyfle i ddylunio a chreu celf gan ddefnyddio deunyddiau a ddarganfuwyd o amgylch yr Ardd. Rydyn ni'n annog disgyblion ac athrawon i ddod â chamerâu i dynnu lluniau o'r darnau hyn a gwaith celf arall o amgylch yr Ardd.

## Hamdden a Thwristiaeth

Fel un o brif atyniadau twristiaeth De Cymru, mae'r Ardd yn rhan bwysig o economi'r ardal. Bydd gan ddisgyblion gyfle i ymchwilio gwasanaethau ymwelwyr, lletygarwch corfforaethol, iechyd a diogelwch, cynnal a chadw, addysg, cydlynu gwirfoddolwyr, gwerthiannau a marchnata. Byddant yn gwneud hyn drwy siarad â phrif aelodau o staff.

Rydyn ni hefyd yn cynnig amrywiaeth o raglenni eraill sy'n gysylltiedig â STEM megis:

* Addasiadau Planhigion
* Cylchred Bywyd Planhigion Blodeuol
* Dangosyddion Llygredd
* Llwybr Cynaliadwyedd a Beth yn y Byd yw Cynaladwyedd?





## Pythefnos Masnach Deg

Cynhelir Pythefnos Masnach Deg rhwng Chwefror 27ain a Mawrth 11eg. Dyma ffordd wych o gynnwys disgyblion a staff mewn gweithgareddau masnach deg a chodi ei broffil yn eich ysgol. Am wybodaeth a syniadau ar sut i gymryd rhan, ewch i www.fairtradewales.com

## Prosiect Coedwig Law Maint Cymru

Beth yw Prosiect Maint Cymru?

Nod Maint Cymru yw dod â phawb yng Nghymru ynghyd i helpu i gynnal ardal o goedwig drofannol o faint Cymru fel rhan o ymateb cenedlaethol i newid hinsawdd.

Mae 'Ardal Maint Cymru' yn cael ei ddefnyddio'n aml i fesur cyfradd dinistrio coedwigoedd. Trwy Maint Cymru, bwriadwn droi'r defnydd negyddol o'r term hwn yn un gadarnhaol trwy annog dinasyddion Cymru i gymryd camau cadarnhaol a helpu i warchod ardal o goedwig law sy'n gyfwerth â maint ein cenedl.

Elusen amgylcheddol yw Maint Cymru sy'n uno cymunedau, busnesau, sefydliadau ac ysgolion i helpu i warchod 2 miliwn hectar o goedwigoedd glaw a chreu cysylltiadau parhaus gyda rhai o bobl dlotaf y byd. Os hoffech gymryd rhan fel ysgol, rhowch glic ar www.sizeofwales.org i ddarganfod mwy am y prosiect gwych hwn.

UWCHRADD

Am rhagor o fanylion cysylltwch a Kay Bailey ar:
01558 667150 neu kbailey@gardenofwales.org.uk

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
National Botanic Garden of Wales
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru